

Dewch i aros yn ein carafán am bris arbennig i ofalwyr di-dâl



Mae ein carafán newydd wedi'i lleoli ar gyrion Pwllheli ac mae ganddi olygfeydd syfrdanol Eryri y tu ôl iddi. Mae mewn rhan bengaead, dawel o'r parc, sy'n addas i bobl o bob oed. Glaw neu hindda, bydd cymaint i'ch difyrru chi yn ystod eich amser yma.

Mwynhewch weithgareddau'r dydd, yr adloniant nos neu ewch am ddiod dawel ym mar y perchnogion. Ewch am daith hamddenol ar y llyn cychod, neu beth am fynd am dro yn ardal fewndirol y parc eang hwn neu ar hyd yr arfordir ar bwys y traeth? Mwynhewch y llithrennau yn y pwll nofio sydd wedi'i ailwampio. Treuliwch



Y garafán go iawn

eich amser ar ddec y garafán wrth i'r haul godi neu fachlud. Dim ond rhai syniadau yw'r rhain i gael gwyliau rhagorol i ffwrdd.

Mae wi-fi am ddim yn y garafán ac mewn gwahanol fannau ar y safle.

Mae'r safle'n addas i bobl o bob oed, gan gynnwys teuluoedd â phlant.

Mae gofalwyr yn medru aros gyda'u dibynyddion, eu teulu neu eu ffrindiau.

Mae 6 o bobl yn medru aros yn y garafán, sydd ag un gwely dwbl a dau set o welyau sengl.

Medrwyd ofyn am le rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref trwy e-bost at caravan@carersoutreach.org.uk neu drwy wefan Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr neu drwy ffonio'r swyddfa 01248 370797.

- * *Medrwyd aros am 3, 4 a 7 niwrnod.*
- * *Cyrraedd ar ddydd Gwener i aros am 3, 4 neu 7 diwrnod, ar ddydd Sadwrn i aros am 3 neu 7 diwrnod ac ar ddydd Llun i aros am 4 neu 7 diwrnod.*
- * *Bydd angen talu blaendal o £50.00 pan fydd eich cais yn cael ei dderbyn, ac ni chaiff hwn ei ad-dalu.*



Darperir dillad gwely.

Mae tocynnau Hwyl a Breintiau wedi'u cynnwys yn y pris.

Medrwyd drefnu i archfarchnad gludo nwyddau'n syth i'r garafán.